**Beirniadaeth Cystadleuaeth 385: Newyddiaduraeth 16-21 oed**

**Beirniad: Gwenfair Griffith**

**Dafodil Pinc - CYNTAF**

Dyma erthygl llawn bywyd sy'n cyfleu'r cyffro adeg agor siop Sephora yng Nghaerdydd. Roedd yn ddigwyddiad gwerth nodi gan taw dyma'r gangen gyntaf i agor yng Nghymru ac ymhlith cwsmeriaid ifanc Sephora yn ddigwyddiad cyffrous.

Mae'r erthygl yn cyfleu'r cyffro yn dda, yn cyfeirio at y dylanwadwyr oedd yno a hyd yn oed yn cynnwys dyfyniadau gan ddau gwsmer. Basai wedi bod yn dda tasai'r awdur wedi nodi enwau'r cwsmeriaid - a chynnwys eu lluniau hefyd. Ond mae'r lluniau sydd wedi'u cynnwys hefyd yn ategu at yr erthygl ac yn sicr byddai'r erthygl hon yn apelio i gynulleidfa ifanc. Da iawn ti!

Dal ati i sgwennu yn Gymraeg - rwyt ti'n gwneud gwaith gwych!

Cofia bod modd gwirio iaith drwy ddefnyddio cysill os wyt ti'n dymuno.
https://www.cysgliad.com/cysill/arlein/

**Heulwen - AIL**

Dyma erthygl gynhwysfawr am rali Ceredigion wedi'i osod yn broffesiynol iawn ac wedi'i ysgrifennu yn huawdl.

Mae'n amlwg bod diddordeb mawr gen ti yn y rali hwn ac mae dawn ysgrifennu yma a chrynhoi gwybodaeth yn dda.

Beth hoffen i weld tro nesa yw dyfyniadau gan gyfrannwyr addas. Byddai trafod â chefnogwr y rali a hefyd amgylcheddwr yn sicrhau cydbwysedd newyddiadurol a thegwch.

Cofia ym myd newyddiaduraeth ei bod yn bwysig cyfleu dwy ochr y ddadl - neu fwy o safbwyntiau pan fo hynny yn gymwys - felly mae siarad â'r rhai sydd yno a hefyd y rhai sy'n poeni am ddigwyddiad yn holl bwysig. Mae hyn er mwyn sicrhau cymdeithas gryf sy'n deall safbwyntiau eu gilydd ac yn helpu addysgu'r darllenwyr.

Da iawn ti - dal ati i newyddiadura - rwyt yn llawn haeddu gwobr newyddiaduraeth yr Urdd